**<u>Pwyllgor Diwylliant – CC-11-01(p.3)</u>**

**Dyddiad:** 20 Mehefin 2001

**Amser:** 9.00am-12.30pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**CYLCH CYNLLUNIO CYLLIDEBOL A CHORFFORAETHOL (BPR) 2001**

**Edwina Hart MBE AC**

Ein Cyf:

Eich Cyf:

Cadeiryddion Pwyllgorau

Mai 2001

**CYLCH CYNLLUNIO CYLLIDEBOL A CHORFFORAETHOL (BPR) 2001**

Amgaeaf bapur yr wyf yn ei ddosbarthu i'r holl Bwyllgorau ac a fydd ar gael heddiw i'r holl bartneriaid. Mae'r papur yn esbonio sut y byddaf yn cynnal proses cynllunio cyllideb 2002-03 ymlaen. Dyma'r trydydd BPR ers ffurfio'r Cynulliad a gobeithio y gallwn ddysgu o'n profiadau gyda chylchoedd blaenorol.

Ni fyddwn yn cynnal Adolygiad o Wariant eleni a bydd BPR eleni felly'n seiliedig ar gynlluniau gwario amcanol y Gyllideb Atodol a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 29 Mawrth 2001. Nid wyf yn disgwyl derbyn bidiau mawr ar gyfer gwariant newydd ond yn hytrach, awgrymiadau ar gyfer addasu neu ailgyfeirio'r cynlluniau sy'n bod. Eleni, byddwn yn canolbwyntio ar y Cytundeb Partneriaeth – *Rhoi Cymru'n Gyntaf, gwellcymru.com* a'r targedau mewn dogfennau cynllunio cysylltiedig. Byddwn yn seilio'r cylch ar yr adnoddau sydd ar gael yn hytrach nag ar sail ariannol ac rwyf wedi trefnu cyngor ar wahân i Gadeiryddion Pwyllgorau ynghylch effaith hyn ar eu cyllidebau.

Un o’r problemau cyllidebu pwysicaf rwyf am ei datrys yw lleihau tanwariant. I’r perwyl hwn, bwriedir edrych yn ofalus ar bob llinell sylfaen, yn enwedig y rheini lle ceir tanwariant yn rheolaidd bob blwyddyn. Yr amcan fydd ceisio pennu proffiliau gwariant sy’n adlewyrchu’n well y sefyllfa wariant wirioneddol. Byddai hynny’n caniatau inni ddefnyddio’r adnoddau sydd gennym yn well.

O ran y broses cynllunio corfforaethol, bydd gofyn bod gennym dystiolaeth ein bod yn cyrchu at y nodau strategol yn y cynlluniau sydd wedi’u cyhoeddi. Yn arbennig, yn *Rhoi Cymru’n Gyntaf:partneriaeth ar gyfer pobl Cymru* a *gwellcymru.com*. At hynny, bydd gofyn i’r Cynulliad barhau i fireinio a datblygu ei syniadau strategol a bydd yn cyhoeddi cynllun adolygedig yn ddiweddarach eleni. Rhan bwysig o’r broses eleni fydd sicrhau bod y cyllidebau’n canolbwyntio’n glir ar y canlyniadau a fydd yn cael eu darparu. Wrth i etholiadau nesaf y Cynulliad nesau, bydd yn bwysig canolbwyntio ar ganlyniadau ein polisïau a’n blaenoriaethau.